Skin Care Cymru

"A voice for skin care in Wales"
"Llais i ofal croen yng Nghymru''

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Groen**
**Dydd Mawrth 27 Medi 2016, 5.30 i 7:30pm**
**Ystafell Gynadledda 24, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

**Cadeiriwyd gan Nick Ramsay AC**

# Cofnodion y cyfarfod

## Yn bresennol:

1. Nick Ramsay AC (Cadeirydd)
2. Julie Morgan AC
3. Dai Lloyd AC
4. Rhun ap Iorwerth, AC
5. Sarah Wright, Gofal Croen Cymru
6. Julie Peconi, Gofal Croen Cymru
7. Paul Thomas, Cadeirydd Gofal Croen Cymru
8. Henrietta Spalding, Changing Faces
9. Rob Vine, Gofal Croen Cymru
10. Jenny Hughes, Dermatolegydd Ymgynghorol a Chadeirydd Fforwm Dermatoleg Cymru Gyfan
11. Deb Vine, Gofal Croen Cymru
12. Girish K Patel, Dermatolegydd ymgynghorol
13. Sarah Sinstead, Almirall
14. Avad Mughal, Dermatolegydd Ymgynghorol
15. Rebecca Jones, Llywodraeth Cymru
16. Caroline Lewis, Llywodraeth Cymru

17. Peter Lewis, Llywodraeth Cymru
18. Rachel Abbot, Dermatolegydd Ymgynghorol

**Ymddiheuriadau:**
Andrew Davies, PABM; Alice Parker, La Roche Posay; Amanda Simonds, Celgene; Dominic Urmston, Cymdeithas Psoriasis; Elaine Hughes, Leo Pharma; Richard Oliver, Hyperhidrosis UK; Liz Allen, British Skin Camouflage; Rana Ghose, Leo Pharma; Hamish Laing, PABM; Simon Oates, Mind and Skin; Carla Mahoney (sylwedydd), BMA Cymru; Claire Mather, Debra; Dave Hill, BI Betsi Cadwalader; Glenda Hill, BI Betsi Cadwalader; Kathryn Humphreys, National Eczema Society; Keith Harding, Canolfan Arloesedd Clwyfau Cymru; Richard Logan, BIPABM; Rose Bell, Gofal Croen Cymru; Mayda Thomas, Gofal Croen Cymru, Aled Thomas, Gofal Croen Cymru; Sarah Griffiths-Little, Grŵp Cymorth Icthyosis; Valerie Loftus, BI Betsi Cadwalader

## 1. **Cyflwyniadau ac ail-sefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol, gan gynnwys cylch gorchwyl**

Croesawodd Nick Ramsay, AC, y mynychwyr, ac eglurodd gan mai hwn oedd y cyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar ôl i'r Cynulliad gael ei ail-ethol, roedd angen ailsefydlu'r grŵp yn swyddogol. Cadarnhaodd y Grŵp Nick yn Gadeirydd gyda Mike Hedges, AC, a Dai Lloyd, AC, wedi cytuno i gyd-noddi'r grŵp. Bydd Gofal Croen Cymru yn parhau i ddarparu ysgrifenyddiaeth.

Roedd y cylch gorchwyl drafft ar gyfer y grŵp wedi cael ei gylchredeg yn flaenorol, a gwahoddodd Nick aelodau i gyfrannu, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod amcanion y grŵp yn gywir. Dywedodd Julie, o Gofal Croen Cymru, y byddai'n fodlon cymryd unrhyw adborth ar y cylch gorchwyl drafft yn dilyn y cyfarfod.

**Camau gweithredu: Pawb i adrodd yn ôl unrhyw sylwadau i Julie (j.peconi@swansea.ac.uk ) ar y cylch gorchwyl drafft ar gyfer y GTB Groen.**

## 2. Adroddiad astudiaeth cwmpasu Blaenoriaethu Iechyd: canlyniadau a thrafodaeth

Rhoddodd Dr Sarah Wright o Gofal Croen Cymru gyflwyniad byr ynghylch cefndir yr astudiaeth gwmpasu gan egluro bod diffyg tystiolaeth ar hyn o bryd ynglŷn â darparu

gwasanaethau dermatoleg yng Nghymru. Roedd yr astudiaeth gwmpasu yng Nghymru yn seiliedig ar brosiect tebyg a gynhaliwyd gan aelodau'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol (APPG) yn Lloegr a nododd gynllun y gwasanaethau yn Lloegr. Yn y bôn trwy'r darn hwn o waith, ceisiodd Gofal Croen Cymru gael gwell dealltwriaeth o realiti gofal eilaidd a'r ddarpariaeth o ran cefnogi pobl yn seicolegol gyda'u cyflyrau croen.

Yn anffodus, nid yw pob BILl wedi ymateb. Yn gryno, mae'r canfyddiadau yn dangos:

- bod problemau â bylchau mewn gwybodaeth
- Mae prinder staff mewn dermatoleg
- Nid oes cefnogaeth seicogymdeithasol ddigonol ar gyfer pobl sy'n dioddef o gyflyrau croen yng Nghymru
- Mae bylchau mawr yn y data a gesglir yn rheolaidd
- Mae dull anghyson o ran adolygu gwasanaethau dermatoleg
- Mae diffyg monitro safonol ar draws Byrddau Iechyd Lleol ac mae goblygiadau mawr i beidio â deall beth sy'n digwydd.

Mae yna hefyd rai enghreifftiau o arfer da - er enghraifft ymgysylltu â meddygon teulu, a dylai'r enghreifftiau hyn o arfer da gael eu rhannu a'u datblygu.

Trafododd y grŵp a oedd unrhyw ffordd o leihau anghysondebau'r data arferol a gasglwyd, a chodi'r ansawdd. Beth allai ACau ei wneud i gefnogi hyn? Un awgrym posibl oedd i ysgrifennu at y Gweinidog.

Roedd y drafodaeth hefyd yn canolbwyntio ar yr angen i gysoni data ar draws y Byrddau Iechyd - ar hyn o bryd mae Byrddau Iechyd yn defnyddio gwahanol systemau codio. Roedd yna hefyd awgrym fod y rhifau a gyflwynwyd yn yr astudiaeth gwmpasu mewn gwirionedd wedi'u tan-adrodd a bod y galw am y gwasanaethau mewn gwirionedd yn uwch. Mae hyn eto yn atgyfnerthu'r angen i adrodd data yng Nghymru fod o ansawdd uwch.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y system adrodd CANISC sy'n gronfa ddata canser.

Nodwyd bod yr Astudiaeth Gwmpasu yn adrodd ffigurau gofal eilaidd yn unig, nid gofal sylfaenol.

## 3. **Recriwtio a chadw dermatolegwyr yng Nghymru**

Cafodd sylwebaeth fer ar rai o'r materion allweddol yn ymwneud â recriwtio a chadw dermatolegwyr yng Nghymru ei dosbarthu cyn y cyfarfod. Rhoddodd Dr Avad Mughal, Dermatolegydd Ymgynghorol gyda PABM ac Ymddiriedolwr Gofal Croen Cymru

gyflwyniad byr ac arweiniodd y drafodaeth ar y papur hwn. Y Cefndir a'r sail ar gyfer y papur hwn yw'r nifer (7 o bosibl) o swyddi gwag yng Nghymru a'r ffaith nad oes gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda erbyn hyn ddermatolegydd ymgynghorol.

Un o'r prif broblemau gyda recriwtio dermatolegwyr yng Nghymru yw'r anhawster wrth fynd i mewn i ddermatoleg fel arbenigedd yng Nghymru. Yn aml, mae 3 neu 5 ymgeisydd ar gyfer pob swydd a dim digon o swyddi gwag.

Mae tystiolaeth hefyd bod cofrestryddion yn dychwelyd i Loegr gyda rhai hyfforddeion yn gweithio yng Nghymru tra bod eu teuluoedd yn aros yn Llundain.

Ceir tystiolaeth hefyd o anghysondeb o ran hysbysebion ar gyfer swyddi tebyg rhwng Cymru a Lloegr - nid yw dermatolegwyr ymgynghorol yng Nghymru yn ennill cymaint â'r rhai yn Lloegr.

Mae contractau dermatolegwyr ymgynghorol hefyd yn wahanol rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban. Yng Nghymru, mae mwy o amser yn cael ei roi i gefnogi datblygiad personol ac ymchwil.

Rhai o'r casgliadau posibl i'r materion hyn gyda recriwtio a chadw dermatolegwyr yng Nghymru yw ehangu nifer y swyddi hyfforddi, rhoi mwy o reolaeth ar lefel leol a chreu swyddi CESR a gynlluniwyd yn benodol i recriwtio mwy o feddygon lleol i ddod yn ymgynghorwyr.

Cafwyd trafodaeth ar breifateiddio dermatoleg sydd yn digwydd mewn rhai ardaloedd yn Lloegr. Yn yr ardaloedd hyn, mae ymgynghorwyr locwm yn cael eu dwyn i mewn i wneud y gwaith am 3-4 mis, ond nid ydynt yn cyfrannu mewn gwirionedd at y Bwrdd Iechyd ac mae cleifion yn gyffredinol yn dioddef. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pham rydym yn recriwtio'n ganolog a'r angen i rymuso ein meddygon iau i gystadlu yn genedlaethol. Ar hyn o bryd, nid yw ein meddygon iau yn cyflawni'r holl 'feini prawf' angenrheidiol er mwyn cystadlu'n genedlaethol.

Yn ogystal, mae meddygon locwm yn costio llawer mwy na chontractau staff. Mae angen edrych ar y gweithlu cyfan ar draws Cymru, nid dim ond mewn dermatoleg. Mae gennym hyfforddiant da ac rydym yn cynhyrchu ymgynghorwyr o ansawdd da ond mae angen ffordd newydd o weithio, ac mae angen i'r llywodraeth sbarduno hynny. Roedd teimlad nad ydym yn hyfforddi digon o'n meddygon ein hunain, ac nid ydym yn eu cadw yng Nghymru. Dylem fod yn anelu at alluogi unrhyw fyfyriwr sydd am astudio meddygaeth. Er y cytunwyd bod llawer o'r materion hyn yn bodoli ar draws meddygaeth yn ei chyfanrwydd, mae rhai materion sy'n arbennig o berthnasol i ddermatoleg.

Cododd y cwestiwn ynghylch yr hyn y gall y grŵp hwn ei wneud gydag awgrym y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd presennol, yn amlinellu'r materion allweddol a chynnig awgrymiadau ar sut i wella'r sefyllfa bresennol. Ar yr un pryd, gallai Dai Lloyd, AC, fynd â'r llythyr at y Pwyllgor Iechyd, gan ei fod yn gadeirydd ar y grŵp hwn.

**Camau gweithredu: Dylai Gofal Croen Cymru ddrafftio llythyr ar ran y Grŵp Trawsbleidiol at y Gweinidog Iechyd yn amlinellu'r problemau allweddol o ran recriwtio a chadw dermatolegwyr yng Nghymru. Bydd hwn yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Grŵp ar gyfer sylwadau cyn ei anfon.**

**Camau gweithredu: Dai Lloyd i fynd â'r llythyr hwn at y Pwyllgor Iechyd.**

## 4. Rhaglen ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio

Cafwyd cyflwyniad gan Dr Peter Lewis, Arweinydd Clinigol y Rhaglen ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio Llywodraeth Cymru. Pwrpas y Rhaglen yw creu gwasanaethau cynaliadwy a phrofiadau gwell i gleifion. Bydd profiadau cleifion yn canolbwyntio ar brofiad defnyddwyr GIG Cymru, mesurau gweithredu cleifion, mesurau ansawdd penderfyniadau, a mesurau profiad y claf a adroddwyd. Egwyddorion allweddol y rhaglenni hyn yw eu bod yn drawsnewidiol, yn gytbwys, yn seiliedig ar werth a'u bod yn grymuso'r claf. Cyflwynodd rhywfaint o ddata ar atgyfeiriadau dermatoleg yn seiliedig ar ddata Ystadegau Cymru, a gwestiynwyd gan rai o'r clinigwyr yn y Grŵp Trawsbleidiol. Ar hyn o bryd, mae BILlau wedi cael cais am wybodaeth am eu blaenoriaethau ar gyfer yr arbenigeddau nesaf, gyda dermatoleg yn gystadleuydd cryf i fod yn nesaf yn y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio (er nad yw hyn wedi cael ei gadarnhau eto).

## 5. Unrhyw fater arall

Cododd Dr Rachel Abbot ganser y croen fel maes y mae angen sylw arno yng Nghymru. Mae canser y croen yn cynrychioli o leiaf 50% o lwyth gwaith dermatolegwyr sy'n cael effaith enfawr ar wasanaethau dermatoleg ar draws Cymru.  Cymru sydd â'r gyfradd grai uchaf o ganser y croen yn y DU, gyda chyfraddau yn parhau i godi. Yn 2015 cyhoeddwyd Ystadegau Swyddogol Uned Deallsurwydd a Gwyliadwriaeth Canser Cymru a oedd yn dangos bod achosion o melanoma wedi dyblu mewn dynion rhwng 2001-2003 a 2011-2013.  Mae data ar ganser y croen keratinocyte yn dal heb eu casglu yng Nghymru er bod hyn yn awr ar gael yn Lloegr.

Nid oes cyllid ar hyn o bryd gan y llywodraeth ganolog ar gyfer atal canser y croen er gwaethaf bod modd atal tua 80-90% o ganser y croen. Mae The BAD, Ymchwil Canser a'r elusen Skcin yn ymgyrchu'n unigol ar atal canser y croen, ond nid yw ar hyn o bryd wedi'i gydlynu ar draws Cymru.  Awgrymwyd y gallai Gofal Croen Cymru helpu i gydlynu'r ymgyrchoedd hyn.

Crybwyllodd Caroline Lewis y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser a dywedodd fod ymgynghori'n digwydd ar hyn o bryd ar gynllun cyflawni trwy'r rhwydwaith canser. Dywedodd y byddai'n ceisio dod o hyd i'r manylion er mwyn bwydo i mewn iddo.

Diolchodd Nick Ramsay i'r grŵp am eu hamser a'u cyfraniad at drafodaeth fywiog ar y materion sy'n ymwneud â gofal croen yng Nghymru.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ymhen tua 6 mis.